



Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing

Pecyn Gwybodaeth

Rheolwr Ynni a Retrofit



CYNNWYS

- 1. Croeso**
- 2. Cefndir**
- 3. Awgrymiadau ar gyfer cwblhau cais am swydd Grŵp Cynefin**
- 4. Disgrifiad Swydd a Manyleb Person**
- 5. Sut i ymgeisio am y swydd**
- 6. Datganiad Cyfle Cyfartal**
- 7. Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth**

1. Croeso

Annwyl Ddarpar Ymgeisydd

Cyfeirnod y swydd: GC588-00

RHEOLWR YNNI A RETROFIT

Cytundeb Parhaol

35 awr yr wythnos

Lleoliad gwaith - Swyddfeydd y Grŵp / O gartref

Diolch i chi am holi ynglŷn â'r swydd uchod gyda Grŵp Cynefin ac amgaewn becyn swydd i'ch sylw.

Cofiwch nodi popeth sy'n berthnasol i'r cais gan gadw mewn cof yr hyn sydd yn y manyleb person.

1. Darllenwch y disgrifiad swydd a'r manyleb person yn ofalus.
2. Cwblhewch bob rhan o'r ffurflen gais.
3. Peidiwch â chynnwys CV.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ffurflen gais, gan eich atgoffa i'w chyflwyno erbyn 12.00 o'r gloch y prynhawn, **dydd Llun 29 Mai 2023**.

Os yn llwyddiannus i fod ar y rhestr fer am gyfweiliad, byddwn yn cysylltu â chi drwy'r cyfeiriad e-bost yr ydych wedi ei nodi ar eich ffurflen gais. Mae angen i chi wirio eich e-byst yn rheolaidd.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynglŷn â'r swydd, yna mae croeso i chi gysylltu â Ceri Davies, Arweinydd Rhaglen Arloesedd a Thwf ar (0300 111 2122).

Yn gywir

Tîm Adnoddau Dynol

2. Cefndir

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i Grŵp Cynefin wrth i ni barhau ar daith drawsnewidiol tuag at ddiwylliant sy'n canolbwyntio'n ddiffuant ar y cwsmer a chanlyniadau. Mae'r sector tai a'n cymunedau gwledig yn parhau i wynebu heriau mawr, yn arbennig datgarboneiddio a darparu mwy o dai fforddiadwy.

Rydym wedi bod yn darparu tai o ansawdd, sy'n ddiogel a fforddiadwy dros chwe sir gogledd Cymru a gogledd Powys i dros 8,000 o bobl ers 2014, pan gawsom ein creu wrth i ddau Landlord Cymdeithasol Cofrestredig traddodiadol uno. Rydym yn gweithio'n galed i ddarparu tai a gwasanaethau rhagorol, i gyfrannu i ddatblygiad cymunedau cynaliadwy a gwarchod a hybu'r iaith Gymraeg gyda balchder.

Mae ein cymunedau a nifer y cartrefi rydyn ni'n eu rheoli ar fin tyfu, rydyn ni am gynyddu iechyd a lles ein cymunedau i'r eithaf, creu cyfleoedd i newid bywydau a siapia lleoedd sy'n sicrhau dyfodol cynaliadwy. Mae gennym uchelgeisiau mawr i adeiladu dros 350 o dai fforddiadwy newydd yn ystod y tair blynedd nesaf; 35 cartref arloesol arall i safon carbon isel / di-garbon a lleihau ein hol troed carbon o leiaf 4%.

Rydym yn ehangu ein cynnig Gofal Ychwanegol gyda dau ddatblygiad pellach, gan greu 107 cartref arall mewn dwy ardal newydd i fynd i'r afael a'r angen cynyddol, ond yn fwy na hynny byddwn yn helpu i greu lleoedd lle mae gan bobl ymdeimlad o gymuned ac yn gallu derbyn lefelau hyblyg o gefnogaeth fel y gallent barhau i fyw'n annibynnol mewn man y maent yn ei garu am gyfnod hirach.

Mae gennym uned fusnes, Gorwel, sy'n darparu gwasanaethau cefnogol ym meysydd camdriniaeth yn y cartref ac atal digartrefedd.

Mae dau is-gwmni hefyd yn weithredol o dan ambarêl Grŵp Cynefin: Canllaw a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych sy'n gweithio i helpu pobl hŷn drwsio, addasu, cynnal a chadw eu cartrefi fel y gallent barhau i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Mae Grŵp Cynefin yn sefydliad cryf yn ariannol gyda chyfleoedd cyffrous o'n blaenau, felly rydym yn chwilio am rywun i reoli'r gwaith o gyflwyno'r rhaglenni retrofit i Grŵp Cynefin, gan ganolbwyntio ar ynni a retrofit domestig.

Mae'r swydd hon yn cynnig cyfle i unigolion sy'n awyddus i ddatblygu gyrfa yn y maes tai mewn awyrgylch Gymreig lle mae'r amodau gwaith yn flaengar a chyfeillgar i'r teulu.

Mwy na thai

Rydym eisoes yn adnabyddus am wneud mwy na rheoli a gosod tai yn unig. Rydym yn gweithredu fel Strwythur Grŵp, gydag arbenigedd ac adnoddau mewn byw'n annibynnol, addasiadau a gwasanaethau cymorth i bobl ifanc 16-24 oed, pobl hŷn a'r rhai sy'n byw gyda phroblemau iechyd meddwl yn ein cymunedau yn ogystal a gwasanaethau cefnogol ar gyfer trais domestig ac atal digartrefedd. Mae ein cymunedau gwledig yn bwysig i ni ac felly hefyd yr amgylchedd, gyda phrosiect ein warden ynni gyda degawd o brofiad yn ein cymunedau.

Rydyn ni'n gwybod trwy ein prosiectau sydd wedi ennill sawl gwobr, megis Y Shed a HWB Dinbych, y gallwn ni wneud gwahaniaeth go iawn i unigolion a'u cymunedau ac rydyn ni'n dda am gael partneriaid i weithio gyda'i gilydd i gyflawni mwy nag y gallen ni yn unigol i adfywio cymunedau a chreu cyfleoedd.

Dyma ychydig mwy am beth ydym ni'n ei olygu pan fyddwn ni'n sôn am 'Mwy na thai'

Cartrefi addas o safon mewn llefydd y mae pobl yn falch ohonynt

Bydd ein cartrefi yn y dyfodol yn ddiogel ac yn **arloesol**, yn cynnwys y dyluniadau diweddaraf lle gallwch chi weithio gartref. Byddant yn gartrefi am oes, gyda thechnoleg glyfar, yn rhatach i'w rhedeg, yn garbon isel ac yn lleoedd cysylltiedig a mannau gwyrdd hawdd eu cyrraedd lle gall ffrindiau, teuluoedd a phlant chwarae, tyfu a chyfarfod yn ddiogel.

Gwasanaethau a phrofiadau rhagorol i'n cwsmeriaid

Rydym am i bobl fod eisiau byw yn ein cartrefi, cael ein hymatebion yn iawn y tro cyntaf ac i'n cwsmeriaid ddweud bod ein gwasanaethau'n rhagorol. Ac mae'n hawdd i'n tenantiaid gysylltu a ni pryd bynnag maen nhw eisiau neu angen.

Gwella bywydau

Byddwn yn gwneud gwahaniaeth i iechyd a lles y bobl yn ein cymunedau. Bydd ein gwaith yn parhau i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi (tlodi bwyd, tlodi digidol a tlodi tanwydd) a'u lleihau, gan ddod o hyd i atebion a chyfleoedd sy'n newid bywydau sy'n galluogi pobl i godi allan o dlodi.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda phobl i'w galluogi i aros yn eu cartrefi yn ddiogel ac yn annibynnol cyhyd ag y bo modd, a pharhau i weithio gyda phartneriaid i gefnogi grwpiau bregus ac amrywiol o bobl, ac atal digartrefedd a chefnogi'r rhai sy'n dioddef cam-drin domestig.

Cynnal cymunedau

Bydd ein cymunedau'n ffynnu a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i hwyluso a chefnogi hyn. Byddwn yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol yn ein cymunedau, gan fuddsoddi mewn gwella iechyd a lles ein cymunedau wrth weithio gydag asiantaethau a grwpiau eraill i adfywio cymunedau.

Yn ogystal ag adeiladu mewn ardaloedd trefol, bydd gennym hefyd ffocws gwirioneddol ar ein cymunedau gwledig lle mae ail gartrefi yn arwain at eithrio pobl ifanc lleol trwy beri iddynt gael eu prisio allan o'r farchnad.

Twf cadarn a chynaliadwy

Byddwn yn parhau i adeiladu tai diogel, fforddiadwy o ansawdd rhagorol, gan gynnig tai ar gyfer gwahanol ddeiliadaethau sy'n diwallu angen lleol, boed yn ddemograffig, yn gymdeithasol neu'n economaidd. Lle bynnag y bo modd, byddwn yn adeiladu cartrefi i safon di-garbon ac yn chwilio am gyfleoedd i ddenu grantiau ar gyfer adeiladau newydd ac ôl-osod i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi presennol.

Byddwn yn archwilio cyfleoedd i ddefnyddio ein harbenigedd i adeiladu tai ar gyfer eu gwerthu ar y farchnad er mwyn cynhyrchu cyfleoedd i fuddsoddi mewn tai rhent mwy fforddiadwy a pharhau i geisio cyfleoedd gweithio rhanbarthol a lleol trwy weithio mewn partneriaeth sy'n ychwanegu gwerth, yn cyfateb i'n gwerthoedd ac yn helpu i adeiladu mwy o gartrefi.



Mwy o wybodaeth - ewch ar ein gwefan
www.grwpcynefin.org

3. Awgrymiadau ar gyfer cwblhau cais am swydd gyda Grŵp Cynefin

Yn Grŵp Cynefin mae ein hethos yn canolbwyntio ar alluogi, cefnogi a grymuso pobl, ac mae hynny'n cynnwys ein staff. Gyda hyn mewn golwg rydym wedi tynnu ynghyd ychydig o gyngor ac awgrymiadau defnyddiol ar sut i gwblhau cais am swydd wag gyda Grŵp Cynefin. Rydym am asesu pobl ar eu gorau fel y gallwn gael gwir ddealltwriaeth o addasrwydd i'r rôl ac i'n sefydliad.

Y pethau sylfaenol

Mae'n swnio'n syml ond mae'r pethau sylfaenol hyn yn gwneud gwahaniaeth i'ch cais.

- Cwblhewch y cais yn llawn gan roi sylw arbennig i hanes a dyddiadau swyddi. Peidiwch â gadael dyddiadau'n wag - os oes gennych fwlch yn eich cyflogaeth dywedwch wrthym am hyn, ni fydd yn effeithio ar ein hasesiad
- Gwiriwch eich sillafu a'ch gramadeg
- Sicrhewch fod eich cais yn cael ei gyflwyno'n dda yn electronig. Rydym yn asesu cymwysiadau yn gyffredinol ar gyfer llythrennedd cyfrifiadurol a defnyddio Microsoft Office

Deall y rôl / swydd

Mae ein ffurflen gais yn gofyn am eich dealltwriaeth o addasrwydd i'r rôl fel y gallwch ffitio o fewn diwylliant a gwerthoedd ein sefydliad.

- **PEIDIWCH** â diystyru na rhuthro'r cwestiynau hyn - maen nhw'n rhan o'n hasesiad
- **PEIDIWCH** â chopio na llên-ladrata o gynnwys ar-lein neu ein gwefan
- **COFIWCH** ymchwilio i'r pwnc (os oes angen) a ffurfio'ch casgliad eich hun
- **COFIWCH** ymchwilio i ddarpariaethau Grŵp Cynefin a'r is-gwmnïau.

Datganiad personol - y darn pwysig iawn!

Bydd eich datganiad personol yn cael ei farcio gan grŵp o aseswyr (o leiaf dau o bobl) yn annibynnol yn erbyn manyleb unigolyn y rôl. Y fanyleb person yw'r ddogfen olaf yn y pecyn swydd bob amser a bydd yn cynnwys set o feini prawf hanfodol a ddymunol.

- **GWNEWCH YN SIWR** eich bod yn cwrdd â'r meini prawf hanfodol, yn benodol lefel y profiad sy'n ofynnol ar gyfer y rôl. Ni fydd ceisiadau nad ydynt yn cwrdd â'r lefel ofynnol o brofiad yn cael eu hasesu ymhellach
- **COFIWCH** deilwra'ch cais gan ddarparu manylion ac enghreifftiau ar gyfer pob gofyniad yn y fanyleb person.

Er enghraifft, nid yw'n ddigonol dweud "Rwy'n chwaraewr tîm da". I sgorio'r mwyafrif o bwyntiau byddwch chi'n rhoi enghraifft i ni o amser lle buoch chi'n gweithio fel rhan o dîm a beth oedd y canlyniad.

- **COFIWCH** gynnwys pob un o ofynion y fanyleb person
- **COFIWCH** gynnwys penawdau a'i gwneud hi'n hawdd i'r asesydd weld pa ofyniad yn y fanyleb person rydych chi'n cyfeirio ato

- Nid yw ychydig o frawddegau yn ddigon o hyd ar gyfer datganiad personol. Bydd datganiad da yn darparu'r holl lefel o fanylion sydd eu hangen arnom ond bydd yn glir ac yn gryno
- **tua 2 dudalen A4 yn fras.**

Pwynt cyswllt

Mae ein pecynnau swyddi bob amser yn cynnwys pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth bellach. Os ydych chi am ddarganfod mwy am y rôl neu wirio'ch addasrwydd, defnyddiwch y wybodaeth gyswllt a ddarperir.

4. Disgrifiad Swydd a Manyleb Person



DISGRIFIAD SWYDD

RHEOLWR YNNI A RETROFIT

Adran:	Gweithrediadau
Yn atebol i:	Arweinydd Cydymffurfio Dros Dro
Yn gyfrifol am:	DD/B
Lleoliad swydd:	Swyddfeydd y Grŵp / O gartref

PWRPAS Y SWYDD:

- Yn gyfrifol am reoli'r gwaith o gyflwyno'r rhaglenni retrofit i Grŵp Cynefin, gan ganolbwyntio ar ynni a retrofit domestig.

CYFRIFOLDEBAU'R SWYDD:

1. Arwain ar raglen Retrofit gan gynnwys rheoli contractau a rheoli cyllidebau.
2. Gweithio gydag ymgynghorwyr, prif gontractwyr ac aseswyr retrofit i lofnodi unrhyw welliannau i gartrefi sy'n cael eu hariannu trwy'r grant ôl-osod.
3. Gweithio gyda'r tîm Rheoli Asedau ehangach i sicrhau bod mesurau wedi'u gosod yn bodloni manylebau ac yn cael eu darparu i safon o ansawdd.
4. Nodi adnoddau ar gyfer gwaith adfer ehangach sy'n gysylltiedig â'r rhaglen retrofit, gan gynnwys manylebau, gwaith, rheolaethau cyllidebol, deddfwriaeth iechyd a diogelwch a chwblhau'n unol â'r rhaglen.
5. Sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion grant ORP o ran mesurau cymhwyso ac adrodd a monitro fel y mae Llywodraeth Cymru yn eu pennu.
6. Sicrhau bod data cywir yn cael ei gasglu a'i gofnodi er mwyn galluogi modelu buddsoddi o ansawdd uchel ac i lywio penderfyniadau a blaenoriaethau strategol o dan raglenni datgarboneiddio.
7. Datblygu strategaethau retrofit ar gyfer eiddo unigol a lluosog.
8. Arwain ar ddylunio ac adolygu cynigion technegol ar gyfer cynlluniau datgarboneiddio i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag amcanion strategol, yn cydymffurfio â PAS 2035 ac yn gweithio gyda'r Ymgynghorwyr Datgarboneiddio i oruchwylio'r broses ôl-osod.
9. Delio gydag ymholiadau cwsmeriaid a rhoi cyngor addas neu gyfeirio at y Wardeiniaid Ynni ar gynhesu fforddiadwy, gwresogi, insiwleiddio, tamprwydd a llwydni.
10. Rheoli ymgysylltu â chwsmeriaid drwy'r daith retrofit gyda'r contractwyr, y Wardeiniaid Ynni a'r Swyddogion Cyswllt Tenantiaid.
11. Cymryd cyfrifoldeb personol i reoli'r cyllidebau'n effeithiol a chwilio am gyfleoedd gwerth am arian er mwyn sicrhau bod gwaith wedi'i gwblhau i safon o ansawdd uchel.
12. Gweithio gyda'r Rheolwr Cyfathrebu i ddatblygu cynllun cyfathrebu a'i gyflawni drwy'r sefydliad ehangach.

CYFRIFOLDEBAU CORFFORAETHOL:	
Darparu Gwasanaethau	- Sicrhau fod y gwaith wedi'i wneud i safon uchel, ar amser ac o fewn cyllidebau. - Ymateb i gwsmeriaid mewnol ac allanol yn broffesiynol. - Rhoi cyngor a chymorth i gyd-weithwyr/cwsmeriaid. - Cyflwyno adroddiadau rheolaidd o fewn cyfrifoldebau'r swydd. - Cydymffurfio â'r holl bolisiâu ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.
Perfformiad	- Cyflawni gwaith yn unol â Safonau Perfformiad Allweddol - Cywaith tuag at nodau ac amcanion Grŵp Cynefin ac yn cefnogi datblygiad sefydliad sy'n perfformio i safon uchel. - Gweithio gyda'r Rheolwr tîm cynnal a chadw i fonitro perfformiad y Tîm yn gweithredu'n briodol ac yn ôl yr angen.
Polisiâu a Phrosesau	- Gwaith yn unol â holl bolisiâu a phrosesau Grŵp Cynefin. - Sicrhau bod polisiâu a phrosesau'n cyd-fynd â gofynion deddfwriaethol, rheolaethol ac ymarfer da. - Cefnogi unrhyw adolygiad a chynnig gwelliannau polisi i gefnogi gwelliant parhaus.
Ariannol a Chyllidebol	Cyfrannu at reoli cyllideb yn effeithiol.
Arall	- Cynrychioli Grŵp Cynefin yn allanol drwy gyfleu delwedd broffesiynol a chadarnhaol ar bob achlysur. - Ymrwymiad i gyfranogiad tenantiaid ym mhob agwedd ar y gwaith.

Nid yw'r Swydd Ddisgrifiad uchod yn rhestr gynhwysfawr o ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd.

Bydd angen dyletswyddau eraill o fewn maint y swydd o dro i dro wrth drafod gyda'r Rheolwr.

Mae'r swydd ddisgrifiad yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn unol â gofynion y gwasanaeth.

Bydd unrhyw newid arfaethedig yn cael ei drafod gyda deilydd y swydd.

CYFRIFOLDEBAU PERSONOL:

Gweithredu yn unol a gwerthoedd Grŵp Cynefin:-

Agored	Tryloyw yn y ffordd rydym yn gweithio ag yn gwneud penderfyniadau. Barod i gydweithio er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau.
Arloesol	Blaengar ac yn barod i herio ein hunain er mwyn darganfod ffyrdd newydd o weithredu a darparu gwasanaethau o'r safon uchaf i'n cwsmeriaid.
Cefnogol	Gweithio gydag angerdd i gefnogi ein cwsmeriaid, cyd-weithwyr a'n partneriaid yn ogystal â helpu ein cymunedau lwyddo.
Cyflawni	Gweithredu'n broffesiynol gan ddefnyddio ein harbenigedd, er mwyn sicrhau ffyniant y cwmni a'n pobl. Anelu am welliant parhaus a gwerth am arian bob amser.
Parch	Parchu ein gilydd ag eraill, hyrwyddo cydraddoldeb a gwrthod unrhyw ragfarn

Sicrhau cyfrinachedd, diogelwch a chywirdeb data
Hyrwyddo a gweithredu yn unol â'r Polisi Iechyd a Diogelwch
Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd o'r gwaith.

Disgwylir bod pob aelod staff o fewn Grŵp Cynefin yn gweithredu o fewn ein Fframwaith Cymwyseddu, sef ymddygiadau neu sgiliau sy 'n hanfodol ar gyfer perfformiad effeithiol:

- Cyfathrebu Effeithiol
- Gweithio fel Tim
- Gweithio'n Effeithiol ac Effeithlon
- Rhagoriaeth Cwsmer
- Gwelliant Parhaus

PRIF GYSYLLTIADAU'R SWYDD:

Mewnol Cyfarwyddiaeth Rheoli Asedau Mewnol, rheolwyr a staff eraill ar draws y Grŵp

Allanol Tenantiaid a chwsmeriaid eraill, ymgynghorwyr, contractwyr, swyddogion Cyngor a Chymdeithasau Tai eraill.

AMGYLCHEDD GWAITH ARFEROL:

- Ymweliadau cartref a safle.
- Gwaith wrth ddesg mewn swyddfa neu gartref
- Teithio i gyfarfodydd/ hyfforddiant/seminarau a'r un tebyg yn fewnol ac yn allanol mewn swyddfeydd Grŵp, partneriaid, cyfranogwyr neu gwsmeriaid.
- Oriau swyddfa safonol, ond weithiau ymweliadau safle a thai y tu allan i oriau swyddfa arferol, i ddelio ag apwyntiadau neu argyfyngau.

MANYLEB PERSON RHEOLWR YNNI A RETROFIT

Ystyrir pob maen prawf yn hanfodol oni nodir yn ddymunol

Addysg a Chymwysterau:

HNC mewn adeiladu a'r amgylchedd adeiledig neu'r hyn sy'n cyfateb

Dymunol

NVQ Lefel 3 Ymwybyddiaeth Ynni

Profiad Proffesiynol:

Profiad ymarferol a/neu oruchwyliwr wrth reoli prosiectau ar y safle

Profiad/arbenigedd mewn mesurau effeithlonrwydd ynni

Profiad o gyflwyno prosiectau ôl-osod/adfywio

Gwybodaeth a Sgiliau:

- Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu
- Sgiliau sefydliadol
- Y gallu i weithio i derfynau amser ac o dan bwysau
- Sgiliau ysgrifenedig a geiriol da
- Sgiliau cyfrifiadurol da (Microsoft Office a chynhyrchion Apple)
- Trwydded yrru lawn

Yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn y lefelau canlynol neu uwch:

Deall: Yn gallu dilyn sgysrsiau arferol sy'n ymwneud â'r gwaith yn y ddwy iaith rhwng siaradwyr rhugl

Siarad: Yn gallu cynnal sgwrs go fanwl am faterion gwaith arferol yn y ddwy iaith

Darllen: Yn gallu darllen a deall deunydd cyffredin a deunydd technegol gyda geiriadur yn y ddwy iaith

Ysgrifennu: Yn gallu drafftio testun arferol gyda chymorth golygyddol yn y ddwy iaith

Arweinyddiaeth a Rheolaeth:

Gallu gweithio'n effeithiol gan ganolbwyntio ar ganlyniadau.
Ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth ardderchog i gwsmeriaid.
Bod ag arddull i weithio ar y cyd.

Crynodeb o'r Telerau ac Amodau Rheolwr Ynni a Retrofit	
Math o gytundeb	Parhaol
Cyflog	Band F, Pwynt £36,734 - £41,345 Cynigir y swydd ar bwynt isaf y band Telir cyflog ar yr 20fed o bob mis
Gwyliau:	30 diwrnod y flwyddyn ynghyd â'r gwyliau banc statudol a'r cyfnod rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd
Teithio:	Defnyddiwr car hanfodol
Pensiwn:	Mae Grŵp Cynefin yn cynnig darpariaeth pensiwn trwy Gynllun Social Housing Pension Scheme (SHPS)
Cyfnod prawf:	6 mis
Oriau gweithio a threfniant gwaith	35 awr yr wythnos Llun - Gwener Gweithredir cynllun fflecsi
Tâl salwch	Gweithredir cynllun tâl salwch galwedigaethol.
Absenoldebau Arbennig	5 diwrnod pro rata gyda thâl mewn unrhyw gyfnod o 12 mis i ofalu am ddibynyddion penodol 2 diwrnod pro rata gyda thâl i briodi, i symud tŷ, i ysgaru. Amser credyd rhesymol ar gyfer apwyntiadau meddygol. Hyd at 10 diwrnod pro rata gyda thâl ar achlysur o brofedigaeth. Hyd at 3 mis pro rata gyda thâl i ofalu am berthynas agos gydag afiechyd terfynol.
Datblygiad Personol	Os oes gennych gymwysterau proffesiynol a'ch bod yn talu ffioedd proffesiynol blynyddol i'ch corff aelodaeth, byddwn yn talu un o'r rhain bob blwyddyn i'ch helpu i aros yn gysylltiedig a'r wybodaeth a'r addysg ddiweddaraf gan eich corff proffesiynol. Rydyn ni hefyd eisiau i'n holl gydweithwyr fwynhau buddion dysgu gydol oes, felly os ydych chi'n gweithio gyda ni byddwn ni'n buddsoddi ynoch chi fel hyn hefyd!

5. Sut i ymgeisio am y swydd

Cwblhewch y ffurflen gais a'i chyflwyno erbyn **hanner dydd, 29 Mai 2023**. Byddwch yn derbyn e-bost yn cadarnhau ein bod wedi ei derbyn eich cais.

6. Datganiad Cyfle Cyfartal

Mae Grŵp Cynefin yn derbyn gofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010 ynghyd â deddfwriaethau eraill perthnasol a'u goblygiadau. Mae gweithdrefnau yn eu lle i oresgyn gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Mae polisiau Grŵp Cynefin yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod unigolion yn cael eu trin yn deg.

7. Ffurflen Monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Gofynnwn yn garedig i chi hefyd gwblhau'r linc i'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fydd yn yr e-bost yn cadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais.